
# Cynllun Adnoddau Coedwig Cwmcarn
# Amcanion rheoli cryno

Bydd y rhain yn gosod yr amcanion rheoli ar gyfer y cynllun adnoddau coedwig a gweithgareddau ehangach ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru er mwyn cynnal a gwella gwydnwch ecosystemau, a'r manteision y maent yn eu darparu. Maent wedi cael eu trefnu yn ôl blaenoriaeth a phan fônt yn ymwneud yn fwy â blociau coetir penodol o fewn ardal y Cynllun Adnoddau Coedwig yn gyffredinol, mae hyn wedi'i gynnwys yn y testun:




## Amcan 1 Coetir hynafol

Mae adfer y coetir hynafol ym mhob un o flociau coetir y Cynllun Adnoddau Coedwig yn amcan blaenllaw, yn unol â Datganiad Ardal y De-ddwyrain a Strategaeth Coetiroedd Llywodraeth Cymru, gan fod dros 50% o'r Cynllun Adnoddau Coedwig hwn yn cynnwys coetir hynafol. Yn yr ardaloedd hyn, bydd conwydd presennol yn cael eu tynnu'n raddol dros amser trwy systemau coedamaeth bach eu heffaith lle bo'n briodol, gyda blaenoriaeth i systemau gorchudd parhaus. Bydd aildyfiant naturiol coed llydanddail, a thanblannu cyfoethogi o bosibl, yn ddulliau a ffefrir i amrywio clystyrau. Bydd angen clirio ac ailstocio rhywfaint o blanhigion o hyd lle mae Hysbysiadau Iechyd Planhigion Statudol wedi'u cyhoeddi.

## Amcan 2 Hamdden a llesiant

Gweithio gyda'n partneriaid a'n cymunedau i nodi sut a ble y gall Ystâd Goetir Llywodraeth Cymru ddarparu atebion sy'n seiliedig ar natur ar gyfer iechyd a lles, darparu cyfleoedd i gysylltu pobl â natur, cynyddu defnydd cyfrifol a hamdden effaith isel mewn ardaloedd priodol, lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol (h.y. tipio anghyfreithlon a gyrru oddi ar y ffordd) a lle y bo'n bosibl, byddwn yn cynnwys cymunedau yn y gwaith o'i reoli.

Mae prif floc Cwmcarn a'r ffordd goedwig eisoes yn ffocws ar gyfer gweithgareddau hamdden coedwig yn yr ardal a dyma fydd y weledigaeth hirdymor ar y safle hwn. Bydd yn parhau i fod yn ffocws ar gyfer hamdden yn y Cynllun Adnoddau Coedwig er mwyn galluogi ardaloedd eraill i gynhyrchu coed ac adfer cynefinoedd.

**Amcan 3 Bioamrywiaeth a chysylltedd**

Gweithio gyda phartneriaid a thimau eraill Cyfoeth Naturiol Cymru i nodi a darparu cyfleoedd i gysylltu a gwella cynefinoedd â blaenoriaeth, ardaloedd gwarchodedig o fewn ac wrth ymyl coetiroedd Cynllun Adnoddau Coedwig, a rhywogaethau â blaenoriaeth a rhywogaethau a warchodir, er mwyn gwella gwydnwch a chysylltedd ac atal effeithiau negyddol yn sgil gweithgareddau rheoli. Bydd hynny'n cynnwys cysylltu ac adfer coetiroedd hynafol a brodorol, cysylltu cynefinoedd agored a rhodfeydd, a chreu cynefinoedd ymyl amrywiol lle maent yn ffinio â chynefinoedd nad ydynt yn goetiroedd, ar draws ardal gyfan y Cynllun Adnoddau Coedwig.

**Amcan 4 Gwydnwch coedwigoedd**

Parhau i amrywio rhywogaethau, oedran a chyfansoddiad strwythurol y goedwig i gynyddu gwydnwch yn erbyn plâu a chlefydau, ac effeithiau newid hinsawdd, wrth adeiladu coedwig gadarn ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Tynnu gweddill y clystyrau llarwydd, rheoli'r ynn, a rheoli rhywogaethau estron goresgynnol yn briodol ar draws ardal y Cynllun Adnoddau Coedwig. Mae amrywiaeth y rhywogaethau yn gyffredinol dda ar draws y cynllun ond gellid gwella gwydnwch ymhellach drwy gynyddu'r ystod o rywogaethau a blannir, lle bo'n addas, a pharhau i reoli ardaloedd o dan systemau coedamaeth bach eu heffaith lle bo'n bosibl er mwyn cynyddu amrywiaeth o ran oedran a strwythur.

**Amcan 5 Cynhyrchu pren cynaliadwy**

Cynnal y gwaith o gynhyrchu coed lle bo'n briodol. Os yw amodau'r safle a nodweddion cnydau yn caniatáu, y nod yw defnyddio systemau gorchudd parhaus er mwyn darparu cyfleoedd i amrywio rhywogaethau a strwythur y coetiroedd, a fydd yn gwella cynaliadwyedd a gwydnwch y coedwigoedd, yn ogystal â darparu manteision economaidd. Mae'r Cynllun Adnoddau Coedwig yn ei gwneud yn ofynnol i fuddsoddi mewn cyfleusterau coedwigaeth er mwyn darparu gwell mynediad ar gyfer echdynnu coed a chaniatáu presgripsiynau rheoli mwy amrywiol o fewn y coetiroedd. Bydd hyn yn galluogi gwaith teneuo rheolaidd a chael gwared ar y clystyrau llarwydd sy'n weddill.

**Amcan 6 Tanau gwyllt**

Gweithio gyda phartneriaid a'r gymuned er mwyn codi ymwybyddiaeth a lleihau'r risg o danau gwyllt drwy addysg a dylunio coedwigoedd. Mae risg uchel o danau gwyllt yn

llawer o’r ardaloedd ym mhrif floc Cwmcarn. Mae angen rhywfaint o fuddsoddiad mewn cynllunio a rheolaethau tân a fydd yn cael sylw drwy gynlluniau gweithredol.

**Amcan 8 Bod yn gymdogion da**

Ymgynghori ac ymgysylltu â chymdogion, cymunedau a rhanddeiliaid eraill ynghylch rheoli Ystâd Goetir Llywodraeth Cymru a gweithrediadau sydd ar ddod er mwyn gwella perthnasoedd a gwybodaeth am sut a pham mae’r ystâd yn cael ei rheoli, lleihau gwrthdaro (er enghraifft gyda thresmasu defaid), ac annog perthnasoedd gwaith agosach, a hynny ar draws holl goetiroedd y Cynllun Adnoddau Coedwig.

**Amcan 9 Rheoli dŵr**

Ni ddylai rheoli coedwigaeth achosi unrhyw ostyngiad yn ansawdd y dŵr nac ychwaith gyfrannu at y lefel bresennol o risg o lifogydd o fewn y coetiroedd ac oddi ar y safle. Cyflawnir hyn drwy arferion coedwigaeth da yn unol â Safon Coedwigaeth ddiweddaraf y DU, gan ddilyn canllawiau coedwigaeth perthnasol ac arferion coedwriaeth sy’n helpu i liniaru dŵr ffo wyneb. Dylai’r gwaith o ystyried mesurau i leihau cyfaint y llif sy’n gadael blociau coedwig gynnwys rheoli llifogydd yn naturiol lle bo modd.